

# Llawlyfr Pontio.



Tudalen Gynnwys.

1. Cyflwyniad. Tud 2
2. Sut I ddefnyddio'r llawlyfr a rhesymwaith dros y llawlyfr. Tud 2
3. Rhol yr oedolyn, tud 3
4. Anghenion y plant. Tud 4 -5m
5. Partneriaethau, Ymyriadau. Tud 6
6. Deilliannau arfaethedig. Tud 7
7. Casgliad. Tud 7
8. Cyfeirnod tud 8

## Cyflwyniad.

Mae'r Llawlyfr yma er mwyn dangos y ffordd i ymarferwyr sydd yn gweithio mewn safle ysgol neu feithrinfa sydd yn derbyn plant i ddechrau yn syth o'r diwrnod ar ôl ei phen-blwydd sydd yn troi yn tair. Mae'r llawlyfr am sôn am y beth yw rôl yr oedolyn yn y safle, beth yw'r anghenion sydd gan y plant wrth iddynt wneud y trosglwyddiad o fyw gartre a bod gyda rhiant/ gwarchodwr i fod yn y safle am hanner diwrnod sef bron i dair awr a hanner. Hefyd sonnir am y gwanhaol partneriaethau sydd ar gael yn y safle megis y bartneriaeth rhwng ymarferwyr a rhieni a gwarchodwyr, partneriaeth rhwng ymarferwyr a phlant a phartneriaeth yr ymarferwyr a'i gilydd a sut maent am gydweithio er lles y plant. Hefyd yn y llawlyfr yma dewch o hyd ymyriadau sydd angen ei wneud a phan maent yn holl bwysig i wneud ar ffordd orau o wneud. Hefyd byddwch yn dod o hyd i ddeilliannau arfaethedig yr ydych yn gallu e ddisgwyl os byddwch yn dilyn y llawlyfr ac yn gwneud y camau sydd ar gael fel ymarferwyr er mwyn helpu'r plant cael y trosglwyddiad a chyfnod pontio mwyaf positif posib.

Sut i ddefnddio'r llawlyfr a rhesymwaith dros y llawlyfr.

Mae'r llawlyfr yma er mwyn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau ac i helpu sicrhau bod y plant yn derbyn y profiad o drosglwyddiad gorau posibl ac ein bod ni yn gwneud i'r plant deimlo yn gyfforddus ac yn hyderus wrth iddyn nhw gerdded trwy ddrysau'r safle. Mae'r llawlyfr yma am roi cymorth i chi fel ymarfer felly mae'n bwysig i chi fynd trwyddo a'i ddarllen yn drylwyr er mwyn sicrhau eich bod gyda'r ddealltwriaeth gorau posib o eich rôl fel ymarferydd a beth yw anghenion y plant, hefyd y bydd yn eich addysgu am ba bartneriaethau a fydd angen i chi sicrhau sydd yn gryf ac yn holl bwysig eich bod yn dilyn y camau o fewn y llawlyfr. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth yr ydych yn ceisio dod o hyd iddo mae'r tudalen cynnwys yn dweud wrthoch chi deitl a pa dudalen fe allech chi ddarganfod y wybodaeth berthnasol i chi.

## Rhol yr oedolyn.

Mae yna sawl gwahanol rôl i fod yn ymarferydd yn y sector yma, megis adnabod anghenion y plentyn, sicrhau bod pob angen sydd gan y plentyn yn cael ei chyflawni i'r safon orau posibl. Rôl allweddol arall sydd gan ymarferwyr yn y sector yma ydy cael partneriaethau da gyda phawb sydd yn bresennol ym mywyd y plentyn, felly'r rhiant neu warchodwr, cyd gweithwyr ar blentyn ei hunain. Mae yn bwysig bod gan oedolion yn y safle cael cynllun clir ar sut i fynd ati i weithio ar bopeth o beth maent am wneud i helpu sicrhau'r mae'r plentyn yn setlo i'r gorau posib, i sicrhau bod ganddyn nhw bob darn o wybodaeth sydd angen o ran gwybodaeth feddygol a statws cartref o ran pwy a fydd yn ei bywydau o ddydd i ddydd hynny yw os taw mam a dad, mam a mam, dad a dad ac yn y blaen neu os eu bod nhw o dan ofal gwarchodwr neu ydyn nhw yn y system gofal plant. Darn o wybodaeth sydd yn holl bwysig i sicrhau sydd gan yr oedolyn yw os mae yna unrhyw sydd dim a hawl i godi'r plentyn i fyny neu i gymryd oddi ar y safle. Mae yn bwysig iawn bod pob un oedolyn wedi darllen a deall polisïau'r safle er mwyn gallu llwyddo cael y trosglwyddiad orau posib.

Adnabuwyd Kagan (1990) bod yna tri phrif rwystr i weithredu chwarae yn y dosbarthiadau blynyddoedd cynnar sef agwedd, strwythur, a swyddogaeth. Mae yna fin agweddol sydd yn gysylltiedig ar werth mae'r oedolyn yn rhoi ar chwarae. Er enghraifft, mae rhai athrawon blynyddoedd cynnar yn gweld chwarae fel ymyrraeth (Korat, Bahar, a Snapir, 2003), mae eraill yn amgylchynol am chwarae, ac yn bwyllgar am y plant yn chwarae yn y dosbarth (Lindqvist, 2001), lle mae eraill dal yn gweld ei rôl nhw fel dysgu a rheoli'r plant yn academiaidd yn y dosbarth yn ei blynyddoedd cynnar (Hadley, 2002).


Mae yna nifer o brosiectau ymchwil sydd yn pwysleisio pwysigrwydd o greu partneriaethau cryf rhwng y gwahanol ddiwylliannau a thraddodiadau ar bob ochr o'r ymraniad blynyddoedd cynnar (Broström 2000; Dahlberg a Taguchi 1994; Neuman 2000) ar wahaniaeth i danlinellu'r pwysigrwydd canlyniadol o drosglwyddo mewn i ysgol. Y fwyaf o gap sydd yna rhwng y plentyn a bod adre ac i ddod mewn i'r ysgol y fwy anodd y bydd i'r plentyn allu drosglwyddo yn hwylus. Nodwyd Margrets (2000) bod angen i'r amser trosglwyddo i mewn i'r ysgol cael ei barnu ar yr athroniaeth bod y trosglwyddiad i ysgol yn Haws i blant os maent yn gyfarwydd ar sefyllfa. Mae rhieni yn gwybod am yr ysgol newydd ac mae'r athrawon yn gwybod am ddatblygid y plentyn ac unrhyw brofiad blaenorol. Gofynnwyd mewn holiadur i athrawon i adlewyrchu ac i farnu'r nifer o weithgareddau sydd yn helpu a throsglwyddiad y plant, Gofynnwyd i'r athrawon barnu'r gweithgareddau er mwyn gweld os oedd yna unrhyw beth a fydd yn stopio'r plentyn rhag cael trosglwyddiad llwyddiannus.

Mae pob un o'r uchod yn bwysig i chi lwyddiannau fel oedolyn yn y gweithle yma er mwyn helpu'r plant a rhieni/ gwarchodwyr derbyn y profiad gorau posib a pob y plentyn yn y diwedd yn edrych ymlaen at ddod i'r ysgol ac i ddysgu ac i chwarae ar y cyd gyda phlant eraill a chreu partneriaethau newydd.

Anghenion y plentyn.

Mae gan bob un plentyn angen gwahanol er enghraifft mae gan rhai plant blanced y maent yn cymryd bob man gyda nhw er mwyn gallu teimlo yn ddiogel i rai plant sydd yn tair oed fe all hyn fod yn rhiant yn frawd yn chwaer yn degan yn botel unrhyw beth sydd yn gwneud iddyn nhw deimlo yn saff. Mae yn bwysig i ni fel oedolion sydd yn atebol am y plant pan maent yn ein gofal i sicrhau bod ei anghenion yn cael ei chynnal.

Mae hierarchaeth Maslow yn sôn am y pum prif angen sydd gan blant;



Wrth i chi edrych ar y llun yma mae yn sôn am y gwahanol anghenion sydd gan blant a sut i sicrhau ei bod yn cael ei chwrrdd.

Wrth edrych ar yr angen ar y pyramid mae yna bedwar angen craidd sydd gan blant er mwyn eu bod nhw yn gallu edrych ar eu hun ac i sylweddoli beth y maent yn ei gwneud.

Yn ôl Maslow (1943) y pedwar angen yw ffisiolegol, Diogelwch, cariad a pherthynas a pharch. Cred Maslow

bod plant angen y pedwar angen yma er mwyn ei bod nhw yn gallu cyraedd y prif angen sef hunan-wireddiad.

Fel oedolyn yn y safle mae angen sicrhau bod yr anghenion yma yn cael ei bwrw felly Dyma sut;

Mae'r angen ffisiolegol yna yw'r angen am bopeth sydd angen ar berson dynol i fyw fel yr aer yr ydym yn anadlu, bwyd a diod i fod yn gryf, i gael cysgod a thŷ diogel i gysgu ynddo. Felly yn y lleoliad rydym yn sicrhau bod gan bob plentyn amser snac sydd yn cynnig snac iachus fel ffrwyth a llaeth neu dwr, yn amlwg os mae gan blentyn alergeddau maen pwysig i chi sicrhau i arlwyo ar gyfer ei anghenion nhw.

Mae'r angen o ddiogelwch yn angen i fod mewn adeilad saff, ac i deimlo fel ei bod nhw mewn ardal ddiogel ac nad oes un rhywbeth gwael am ddigwydd. Yn y lleoliad rydym yn sicrhau hyn trwy fod un aelod o staff yn cerdded i agor y gât sydd yn cael ei chadw ar gau trwy adeg y dydd o dan glo am yn sicrhau bod pob rhiant neu warchodwr yn cerdded ei phlentyn i ddrws yr ystafell dosbarth ac wrth iddynt gyrraedd bod yna aelod arall yn sefyll wrth y drws yn cyfarch y plant ac yn ei annog i ddod mewn a bod dim rhiant na gwarchodwr yn dod i mewn i'r dosbarth, wrth i'r plant cerdded fewn i'r ystafell ddosbarth mae gennym oeliaf un neu ddau aelod ychwanegol yn sicrhau i helpu'r plant cymryd ei chotiau a bagiau i ffwrdd ar aelod arall yn sicrhau bod y plant

yn eistedd ar y mat ac yn sicrhau nad oes unrhyw un o'r plant yn ceisio rhedeg yn ôl at y drws i fynd nôl at riant neu warchodwr sydd wedi gadael. Erbyn i'r holl blant disgwyledig cyrraedd mae un aelod o staff yn mynd allan ar ôl i'r prif ddrws cael ei chloi ac yn mynd i gau'r gât er mwyn rhoi cyfle i unrhyw blentyn sydd yn rhedeg yn hwyr i gyrraedd.

Mae'r angen nesaf sef chariad a pherthyn yn un sydd yn bwysig iawn i sicrhau bod y cyfnod pontio yn mynd yn llwyddiannus yn amlwg mae plant yn mynd i deimlo fel ei bod yn cael eu caru a'i bod nhw yn perthyn fwyaf yn y llefydd maent yn adnabod y fwyaf fel ei chartref. Yn ein lleoliad rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud yr ystafell i fod yn gartrefol iawn i'r plant a bod yna digon ganddyn nhw i wneud a gwahanol ardaloedd megis mae yna gornel ddarllen sydd gyda digon o glustogau er mwyn ei bod nhw yn gallu mynd i ymlacio, mae yna hefyd gegin felly os mae plentyn yn gwario llawer o amser yn y gegin adref gyda rhiant neu warchodwyr maent yn gallu chwarae rôl fel ei bod nhw adref gyda'r bobl sydd yn gwneud iddyn nhw deimlo yn gariadus a'i bod nhw yn perthyn.

Mae'r angen nesaf sef parch yn un hynod o bwysig gan fod angen i ni fel oedolion dangos parch at y plant er mwyn gobeithio y bydden nhw yn copïo ein hagwedddau ni fel dweud diolch a plîs. Mae dangos parch i blant fel unrhyw berson arall yn holl bwysig oherwydd mae hyn yn mynd i helpu gyda'r angen o deimlo perthyn, Heb barch nad ydyn nhw am deimlo hyn. Rydym yn dangos parch yn ein lleoliad fel y byddwn ni yn parchu ein gilydd er enghraifft os mae plentyn yn rhoi llun i ni rydym yn diolch i'r plentyn yn obaith bydd y plant yn y dyfodol agos yn dangos plant eraill y parch maent yn gweld yr oedolion yn dangos.

Cyn i blentyn gallu cyrraedd yr angen olaf sef hunan wireddiad mae angen i bob un o'r anghenion arall adeiladu lan fel adeilad os nad yw'r plentyn yn teimlo bod ei angen yn cael ei bwrw nad ydyn nhw am gyrraedd ei hunain wireddiad. Felly mae yn bwysig iawn i ni fel oedolion yn y safle bwrw'r holl anghenion arall yma er mwyn i'r plant gallu symud blaen a chael ryw fath o hunain werth.

### Partneriaethau a ymyriadau.

Mae partneriaethau yn rhan holl bwysig o ein gwaith o fewn y safle oherwydd ei bod yn rhan holl bwysig o fod yn oedolyn yn y lleoliad a hefyd mae yn rhan bwysig ein bod yn gallu helpu'r plant cyrraedd ei anghenion sydd ganddyn nhw. Mae ein Prif bartneriaeth yn digwydd gyda phrif warchodwr y plentyn mae hyn oherwydd nhw sydd yn gallu rhoi'r brif wybodaeth am y plentyn am ddigwyddiadau pwysig sydd angen i ni wybod am fel oedolion sydd yn darparu gofal dros y plentyn. Mae gan bob rhiant neu warchodwr cyn i'r plentyn dod mewn i'n gofal ni contract i ddarllen ac arwyddo i ddweud ei bod nhw yn cytuno gydag ein gweithredai o ddydd i ddydd hefyd mae rhaid iddyn nhw lenwi ffurflen mewn sydd yn gadael i ni fel ymarferwyr adnabod aelodau teulu sydd yn dod i bigo'r plentyn i fyny ynghyd a hyn ac maent yn rhoi unrhyw wybodaeth am unrhyw sydd ddim a hawl i fod yn agos i'r plentyn neu ar hawl i'w chymryd o'r safle, gyda'r wybodaeth hyn am unigolyn mae yn bwysig eu bod nhw yn dod a ffurflenni o'r cwrt sydd yn dangos yn ôl y gyfraith nad ydyn nhw am wneud hyn, hefyd mae angen iddyn nhw ddarparu oeliaf dau brif gyswllt y byddwn ni yn wall cysylltu ag os oedd yr unigolyn am droi mynnu. Fel oedolion sydd yn gyfrifol dros y plentyn tra ei bod nhw yn ein gofal mae yn bwysig ein bod yn siarad gyda phob rhiant neu warchodwr un i un fel ein bod yn gallu tawelu eu meddwl am uhnrhwybeth sydd yn codi pryder arnyn nhw am ei phlentyn yn dechrau gyda ni. Mae ein partneriaethau yn holl bwysig i ni yn y lleoliad gan ein bod ni fel ymarferwyr yn gwneud ein gorau i gydweithio gyda rhieni neu warchodwyr er mwyn cael y gorau ar gyfer y plentyn. Yn amlwg mae gennym berthynas agos iawn gyda'r plant ei hun maen hyn hefyd yn holl bwysig i ni oherwydd er mwyn gallu cyflawni rôl yr oedolyn a chyrraedd anghenion y plentyn mae rhaid i ni gael partneriaeth hynod o agos gyda'r plentyn gan ddaw heb law am ei riant neu warchodwr maent yn mynd i fod yn gwario llawer o amser gyda ni yn y lleoliad.

Dyma wahanol bobl o fewn ymyriadau;

Gweithwyr cymdeithasol

Nyrs ysgol

Gweithwyr chwarae

Cownselydd

Swyddog amddiffyn plant.

Mae'r swyddi uchod a mwy yn broffesiynau sydd yn gallu ymyrru ar ein galwad ni os ydym yn teimlo ein bod ni angen help profesiynwyr ac ein bod wedi gweld digon o arwyddion sydd yn ein hachosi ni i boeni am y plentyn penodol.

## Deilliannau arfaethedig.

Wrth edrych ar yr hol gwybodaeth uchod mae gan bawb sydd yn gweithio yn y lleoliad deillian arfaethedig yr un peth sef i gael y plant i gael cyfnod pontio positif a'i bod yn trosglwyddo yn hapus ac yn teimlo yn ddiogel yn ein lleoliad ni. Rydym hefyd yn gobeithio bydd y plant i gyd yn chwarae ar y cyd ac yn creu partneriaethau o fewn y grŵp ac yn gallu gwneud ffrindiau newydd, a bod y plant yn sylweddoli ein bod ni fel ymarferwyr yn y lleoliad yna i helpu nhw ac i fod yn gefn iddyn nhw os maent yn teimlo yn drist, yn flin neu i sicrhau eu bod nhw yn gallu chwarae yn saff ac yn ddiogel trwy sicrhau ein bod ni yn cyrraedd ei anghenion nhw.

## Casgliad.

Wrth ddarllen y llawlyfr y dylwch chi wedi gallu dod i adnabod beth yw eich rôl chi fel oedolyn yn y lleoliad. Dylwch wybod a sut i fynd ati i lwyddo yn eich swydd ac adnabod y gwahanol anghenion a gwybod sut rydym ni fel lleoliad yn sicrhau ein bod yn gwneud hyn y llwyddiannus. Os nad ydych yn siŵr ar unrhyw beth mae yn hynod bwysig eich bod yn gofyn i arweinydd y lleoliad i egluro neu os ydych am ofyn sut yr ydych am fynd ati i wneud swydd yn well mae yn well i holi na aros tan ei bod nhw yn eu codi fel problem. Rydym fel oedolyn yn ceisio gweithio fel un tîm er mwyn sicrhau bod y plentyn yn hapus ac yn ddiogel yn dod atom ni yn yr ysgol. Mae'r holl wybodaeth uchod yn rhoi'r adnoddau i chi fel unigolyn i fynd ati ac i lwyddo yn y swyddi sydd gennych o fewn y lleoliad ac i helpu creu atmosffer saff hapus a diddorol i'r plant ac i wneud nhw deimlo yn gyfforddus.

## Cyferinodi.

Broström, S. (2000). Transition to school. Paper related to poster symposium at the 10th European Early Childhood Education Research Association (EECERA) International Conference; London, UK. September 2000

Dahlberg, G., Moss, P. And Pence, A. (1999). *Beyond Quality in Early Childhood Education and Care: Postmodern perspectives*. London, UK: Falmer.

ERIC - ED408059 - The Teacher's Role in Outdoor Play: Preschool Teachers' Beliefs and Practices., Journal of Australian Research in Early Childhood Education, 1997[PDF] ed.gov

ERIC - ED522698 - Outcomes of Good Practice in Transition Processes for Children Entering Primary School. Working Papers in Early Childhood Development, No. 42, Bernard van Leer Foundation (NJ1), 2007-May- [PDF] ed.gov

Hadley, E (2002). Playful disruptions.. Early Years, 22, 9–17. Halberstadt, A. G., Denham, S. A., & Dunsmore, J. C (2001). Affective social competence.. Social Development, 10, 79–119.

Kagan, S. L. (1990). Children's play: The journey from theory to practice. In E. S. Klugman, & S. Smilansky (Eds.), *Children's play and learning: Perspectives and policy implications* (pp. 173–187). New York: Teachers College Press.

Korat, O., Bahar, E., & Snapir, M (2003). Sociodramatic play as opportunity for literacy development: The teacher's role.. The Reading Teacher, 56, 386–393.

Lindqvist, G (2001). When small children play: How adults dramatise and children create meaning.. Early Years, 21, 7–14.

Margrett's, K. (2000). *Establishing Valid Measures of Children's Adjustment to the first year of schooling*. Post-script: [www.edfac.unimelb.edu.au/insight/postscript.shtm](http://www.edfac.unimelb.edu.au/insight/postscript.shtm)

Play in the Preschool Classroom: Its Socioemotional Significance and the Teacher's Role in Play | SpringerLink[PDF] academia.edu